



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Mai 2025 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 May 2025 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Richard Davies, Trystan Phillips, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Teresa Harries, Philippa Noble, Elaine Evans (6.45yh/pm-6.55yh/pm **yn unig/only**), Clive Davies, Richard Jones, Mike Lewis (Tivyside) Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd** / Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyn i gyfarfod y cyngor ddechrau, croesawodd y Maer a'i gyd-gynghorwyr gynrychiolwyr o sefydliadau lleol a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am grant. Hefyd yn bresennol oedd derbynwyr Cronfa'r Maer. Ar ddiwedd ei thymor 2024-25 yn y swydd roedd y Cyng Olwen Davies wedi dewis cefnogi'n ariannol yr RNLI, y Ganolfan Therapi Ocsigen, Cyfeillion Aberteifi a Gofal Iechyd Cymunedol ac Uned Ymateb Cyntaf Aberteifi. Derbyniwyd y llythyrau rhoddion wrth fwynhau'r heulwen yn lleoliad dymunol Gerddi Brioude a soniodd bob cynrychiolydd crynodeb byr o sut y byddai'r grantiau'n cefnogi eu grwpiau.

Before the council meeting started, the Mayor and fellow councillors welcomed representatives from local organisations who had been successful in their grant applications. Also in attendance were the beneficiaries of the Mayor's Fund. At the end of her 2024-25 term in office Cllr Olwen Davies had chosen to financially support the RNLI, The Oxygen Therapy Centre, Friends of Cardigan and Community Health Care and Cardigan First Response Unit. The grant letters were accepted whilst enjoying the sunshine at the pleasant location of Brioude Gardens and brief speeches of acceptance were made by each representative giving a short synopsis of how the grants would support their groups.

1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Mark Cole – Angladd ffrind agos yn Amwythig; Y Cyng Elaine Evans – parti pen-blwydd yr ŵyr, fodd bynnag cytunodd y Cyng Evans i ymuno â'r cyfarfod i dderbyn rôl y Dirprwy Faer ar gyfer 2025-26.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Mark Cole – Funeral of a close friend in Shrewsbury; Cllr Elaine Evans – grandsons birthday party, however Cllr Evans agreed to join the meeting to accept the role of Deputy Mayor for 2025-26.

2. Araith y Maer: Y Cyngorydd Olwen Davies

Diolchodd y Cyng Olwen Davies i'w chyd-gynghorwyr am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd ei chydweithwyr at crynodeb o'i blwyddyn yn y swydd, yn yr Adroddiad Flynyddol, gan dynnu sylw at ei hatgofion nodedig. Oherwydd yr amgylchiadau anarferol o gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol mewn cyfarfod misol yn lle Neuadd y Dref, nid oedd y Maer yn teimlo ei bod yn berthnasol iddi adrodd yr adroddiad ar lafar i'r cynghorwyr, ond awgrymodd y gallent ddarllen yr adroddiad yn eu hamser eu hunain yn lle hynny.

The Mayor's Speech: Councillor Olwen Davies

Cllr Olwen Davies thanked her fellow councillors for their support over the last year. She directed her colleagues to a summary of her year in office in the Annual Report, highlighting her stand out memories. Due to the unusual circumstances of the Annual General Meeting being held in a monthly meeting instead of the Guildhall, the Mayor did not feel it relevant that she verbalise the account to the councillors, but suggested that they could read the report in their own time instead.

3. I ethol Maer y Dref am 2025-26

Cynigiodd y Cyng Elaine Evans y dylid ethol y Cyng Olwen Davies yn Faer y Dref am y flwyddyn 2025-26. Eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Davies. Roedd y cynghorwyr yn gwbl gytun ac etholwyd y Cyng Olwen Davies yn Faer Tref Aberteifi am ail dymor yn y swydd, am y flwyddyn gyfredol.

To elect the Town Mayor for 2025-26

Cllr Elaine Evans proposed that Cllr Olwen Davies be elected Town Mayor for the year 2025-26. This was seconded by Cllr Richard Davies. The councillors were in complete agreement and Cllr Olwen Davies was duly elected as Cardigan Town Mayor for a second term in office, for the current year.

4. Gwahoddiad i'r Maer i ddarllen a llofnodi'r ddogfen "Datganiad derbyn y swydd".

Darllenodd a llofnododd y Cyng Olwen Davies y datganiad derbyn swydd. Mynegodd y Cyng Davies ei bod yn anrhydedd ac yn ffrinddal swydd y Maer yn y flwyddyn gyfredol am ail dymor, a byddai'n ymrwymo, unwaith eto, i'r rôl i helpu'r gymuned a pharhau â'r gwaith da a wnaed gan yr holl Faerion blaenorol. Diolchodd i'w nith Ms Ffion Davies am ei chefnogi y llynedd, ac am ymrwymo i fod yn Faer am flwyddyn arall.

The Mayor to read and sign the document "Declaration of acceptance of office".

Cllr Olwen Davies read and signed the declaration of acceptance of office. Cllr Davies voiced it was an honour and a privilege to hold the office of Mayor for 2025/26 for a second term and would commit herself, once again, to the role wholeheartedly to help the community and continue the good work carried out by all previous Mayors. She thanked her niece Ms Ffion Davies for supporting her last year, and for committing to being the Mayoress for a further year.

5. I ethol y Dirprwy-Faer am 2025-26

Cynigiodd y Cyng Catrin Miles y dylid ethol y Cyng Elaine Evans yn Ddirprwy Faer y Dref am y flwyddyn 2025-26. Eiliwyd hyn gan y Cyng David Maehrlein. Roedd y cynghorwyr yn gwbl gytun ac etholwyd y Cyng Elaine Evans yn Ddirprwy Faer Tref Aberteifi am y flwyddyn gyfredol.

To elect the Deputy Mayor for 2025-26.

Cllr Catrin Miles proposed that Cllr Elaine Evans be elected Deputy Mayor of the town for the year 2025-26. This was seconded by Cllr David Maehrlein. The councillors were in complete agreement and Cllr Elaine Evans was duly elected Deputy Town Mayor for the current year.

6. Gwahoddiad i'r Dirprwy-Faer i ddarllen a llofnodi'r ddogfen "Datganiad derbyn y swydd".

Darllenodd a llofnododd y Cyng Elaine Evans y datganiad derbyn swydd. Diolchodd y Cyng Evans i'w chydweithwyr am y cyfle hwn a gobeithiodd fod yn gefnogaeth werthfawr i'r Maer am y flwyddyn nesaf. Cyflwynodd y Maer Gadwyn y Swydd y Dirprwy Faer i'r Dirprwy Faer newydd ei ethol.

The Deputy Mayor to read and sign the document "Declaration of acceptance of office".
Cllr Elaine Evans read and signed the declaration of acceptance of office. Cllr Evans thanked her colleagues for this opportunity and hoped to be a valuable support to the Mayor for the next year. The Mayor presented the Deputy Mayor's Chain of Office to the newly elected Deputy Mayor.

7. I apwyntio Brysgyllwyr y Cyngor am 2025-26

Penododd y Maer ei chludwyr byrlllys, Mr Roy Evans a Mr John Williams. Roedd y Clerc wedi cadarnhau gyda'r cludwyr byrlllys yn flaenorol eu bod yn hapus i ymgymryd â'r rôl am y flwyddyn gyfredol.

To appoint the Council's Mace Bearers for 2025-26

The Mayor appointed her Mace-bearers, Mr Roy Evans and Mr John Williams. The Clerk had previously confirmed with the Mace-bearers that they were happy to undertake the role for the current year.

8. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Mynegodd y Cynghorwyr eu llongyfarchiadau i'r Maer a'r Dirprwy Faer newydd eu hethol, Olwen ac Elaine, a dymunodd bob llwyddiant i'r ddwy yn ystod eu blwyddyn yn y swydd. Aeth y Maer ymlaen i longyfarch Pwyllgor Dydd Sadwrn Barlys ar eu digwyddiad hynod lwyddiannus, a ddenodd filoedd i ganol y dref. Mae'n cymryd llawer o waith y tu ôl i'r llenni ac oriau o ymrwymiad gan wirfoddolwyr i sicrhau bod y diwrnod yn rhedeg yn esmwyth. Diolch i bawb a gyfrannodd o'u hamser.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Councillors voiced their congratulations to the newly elected Mayor and Deputy Mayor, Olwen and Elaine, and wished both every success during their year in office. The Mayor went on to congratulate the Barely Saturday Committee on their extremely successful event, which drew thousands into the town centre. It takes a lot of work behind the scenes and hours of commitment by volunteers to make sure the day runs smoothly. Thank you to all who contributed their time.

9. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.

Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sits on the planning committee.

10. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 1 Ebrill 2025.

I gytuno a llofnodi cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Personel a gynhaliwyd nos Fawrth 29 Ebrill 2025.

Cynigiodd y Cynghorwyr fod cofnodion cyfarfod y cyngor nos Fawrth, 4 Mawrth a cofnodion yr Is-bwyllgor Personel nos Fawrth, 29 Ebrill, yn cael eu cofnodi fel rhai cywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 1 April 2025.

To approve and sign minutes of the Personnel Sub-Committee meeting held on Tuesday 29 April 2025.

The Councillors proposed that the Tuesday, 4 March council meeting minutes and the Personnel Sub-committee minutes held on Tuesday 29 April, be recorded as correct.

11. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2025.

- Mae Rhodri Clark, cynrychiolydd o Historypoints.org, wedi gosod dau gôd QR newydd yn Netpool a wal fynedfa Fisherman's Rest sy'n rhoi hanes byr o'r porthladd a'r prif gei a elwir yn Lloyd's Wharf. Pan gaiff ei sganio, mae'r wybodaeth yn lawrlwytho ar unwaith i'ch dyfais symudol. Mae'r codau'n wyrdd llachar ac yn faint cerdyn post. Ar hyn o bryd dim ond yn Saesneg y mae'r wybodaeth ar gael, ond maen nhw'n cyfieithu eu holl lenyddiaeth i'r iaith Gymraeg a fydd ar gael ar yr ap yn y pen draw.
- Mynychais weminar Adran 6, a gynhaliwyd gan Rachel Carter, swyddog Bioamrywiaeth Un Llais Cymru ar 14 Ebrill a gwirfoddolais i Gyngor Tref Aberteifi i fod yn rhan o gynllun peilot sy'n datblygu Pecyn Cymorth newydd a fydd yn asesu gwerth bioamrywiaeth ardaloedd Glaswelltiroedd Amwynder, gall y Clerc fod y prif gyswilt a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Is-bwyllgor Bioamrywiaeth.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 1 April 2025.

- Rhodri Clark a representative from historypoints.org has installed two new QR codes in Netpool and the entrance wall to Fisherman's Rest which gives a brief history of the port and the main quay known as Lloyd's Wharf. When scanned the information downloads instantly to your mobile device. The codes are bright green and postcard size. The information is currently only available in English, but they are translating all of their literature into the Welsh Language which will eventually be made available on the app.
- I attended a Section 6 webinar, hosted by Rachel Carter, Biodiversity officer for One Voice Wales on the 14 April and volunteered for Cardigan Town Council to be a part of a pilot scheme developing a new Toolkit that will assess the biodiversity value of Amenity Grassland areas, the Clerk can be the main contact and all information will be shared with the Biodiversity Sub-committee.

12. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

13. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A250276/7	Elvira Oddy, Walden Arts, The Old Sail Loft, Drawbridge Warehouse Middle Mwldan, Aberteifi, SA43 1HW.	<i>Estyniad newydd arfaethedig ar y plot gwag gerllaw'r Hen Loft Hwyllo / Proposed new extension on the vacant plot adjacent to the Old Sail Loft.</i>	<i>Dim gwrthwynebiadau / No objections.</i>
A250259	Nathan Bowen, 12 Station Road, Aberteifi, SA43 3AD.	<i>Newid defnydd arfaethedig o uned storio (Dosbarth B) i gampfa (Dosbarth D2) i gynnwys cyfleusterau newid a thoiledau a gwaith cysylltiedig / A proposed change of use from storage unit (B Class) to a gym (D2 Class) to include changing facilities and toilets and associated works.</i>	<i>Dim gwrthwynebiadau / No objections.</i>

14. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/05/25	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mai/May)</i> <i>Band Lydan (Mai) / Broadband (May)</i>	A9 A20	D/D	£291.67.00(0.00) £20.00 (0.00)
06/05/25	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ebrill/April)</i>	A5	BACS	£1957.52(0.00)
06/05/25	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Ebrill 2025 – 5 Mai 2025/ PAYE payment for 6 April 2025 – 5 May 2025.</i>	A16	BACS	£639.53(0.00)
06/05/25	<i>Bachan Deche / Handyperson (Ebrill/April)</i>	A19	BACS	£(0.00)
28/04/25	<i>Gwasanaeth cyfieithu/Translating service</i>	A18	BACS	£96.25(0.00)
07/04/25	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
27/04/25	Zoom Communications Inc	A20	BACS	£616.68(102.78)
14/04/25	CIA Fire and Security – Smart Access Entry Gate System	B8	BACS	£6720.00(1120.00)
14/04/25	CIA Fire and Security SmartAccess Netcode Subscription	B8	BACS	£187.20(31.20)
04/03/25	B&M – Dog waste bags	A15	BACS	£10.00(0.00)
23/04/25	Cardi Banners – Barley Saturday road closure signs	D10	BACS	£150.00(0.00)
25/04/25	<i>Ffi Archwilydd Mewnol / Internal Auditor Fee</i>	A13	BACS	£350.00(0.00)
03/04/25	<i>Ffi cau ffordd Dydd Sadwrn Barlys / Road Closure Fee</i>	D10	BACS	£920.00(0.00)
12/04/25	Zurich Municipal Council Insurance	A11	BACS	£3741.22(0.00)
09/04/25	WHSmith – 3 x A4 Notepads	A7	BACS	£14.98(0.00)
08/04/25	Amazon – Bunting flags	B9	BACS	£109.80(0.00)
09/04/25	Amazon – Bankers Box Storage Bags	A7	BACS	£19.25(0.00)
09/04/25	Amazon – Treasury Tags	A7	BACS	£5.99(0.00)
30/04/25	M & E Pearce Ltd – Bunting	B9	BACS	£13.32(2.22)
06/05/25	<i>Rhodd / Grant - Bendith</i>	D3	BACS	£300.00(0.00)
06/05/25	<i>Rhodd / Grant – Fflach Cymunedol</i>	D3	BACS	£1000.00(0.00)

06/05/25	Rhodd / Grant – Eglwys Santes Fair / St Mary's Church	D3	BACS	£500.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Cardigan Army Cadet Force (Taliad wedi'i atal / Payment withheld)	D3		£300.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Clwb Ceir Clasur Aberteifi	D3	BACS	£500.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – HaHAV Ceredigion	D3	BACS	£750.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Gwyl Fawr Aberteifi	D4	BACS	£2000.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – 1 st Cardigan Guides	D3	BACS	£300.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Gwyl Afon a Bwyd Aberteifi	D11	BACS	£500.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Clwb Ffermwyr Ifanc Penparc	D3	BACS	£2000.00(0.00)
06/05/25	Rhodd / Grant – Friends of Netpool Park	D3	BACS	£100.00(0.00)
06/05/25	Cronfa'r Maer / Mayors Fund - RNLI	D2	BACS	£250.00(0.00)
06/05/25	Cronfa'r Maer / Mayors Fund – Oxygen Therapy Centre	D2	BACS	£250.00(0.00)
06/05/25	Cronfa'r Maer / Mayors Fund – Cardigan First Responders	D2	BACS	£250.00(0.00)
06/05/25	Cronfa'r Maer / Mayors Fund – Friends of Cardigan and Community Health Care	D2	BACS	£250.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr John Adams-Lewis – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Nicholas Bolton – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Clive Davies – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Olwen Davies – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Elaine Evans – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Mark Cole – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Teresa Harries – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Richard Jones – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr David Maehrlein – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Siân Maehrlein – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Philippa Noble – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Trystan Phillips – Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)
06/05/25	Y Cyng/Cllr Catrin Miles - Lwfans / Expenses	A3	BACS	£156.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/04/2025	Lloyds Bank: Llog / Interest	£63.76
14/04/2025	HMRC: Ad-daliad TAW / VAT Repayment	£12,079.31
25/04/2025	Lawn Tennis Association – Rhodd / Grant	£5,600.00
29/04/2025	CSC Taliad Praesept 1 / CCC Precept Payment 1	£33,008.07

b) Cyflwyniad o Datganiadau cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi a Ffurflen Flynyddol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2024-25.

Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol (Eleri Maskell) yr Adroddiad Archwilio Mewnol, Adroddiad Cysoniad Banc, Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025. Cyflwynwyd hefyd esboniadau o amrywiannau sylweddol ar y Datganiadau Cyfrifyddu. Roedd y dogfennau uchod wedi'u hanfon drwy e-bost at yr aelodau cyn y cyfarfod. Esboniodd y Clerc fod amrywiad bach o £4.32 ym malans y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Ebrill, oherwydd bod y taliadau banc misol wedi cael eu tynnu'n ôl o'r cyfrif ar ddiwedd mis Mawrth ar ôl i'r balansio gael ei gwblhau. Mae'r dogfennau wedi'u haddasu i gyflwyno'r ffigur cywir.

Cafwyd y cyflwyniad canlynol gan y SAC:

Deallwyd bod yr aelodau wedi darllen ac archwilio'r adroddiad Archwilio Mewnol.

Paratowyd y ffigurau Datganiad Incwm a Gwariant ar dudalen 1 y Ffurflen Flynyddol cyn arolygiad yr Archwilydd Mewnol ar 16 Ebrill 2025, a chanfu eu bod yn gywir ac mewn trefn.

Roedd Ffurflen Flynyddol Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2025 tudalennau 1, 2 a 3 angen sylw cynghorwyr yn y cyfarfod. Cwblhawyd a chymeradwywyd cwestiynau 1-10 ar dudalen 2 a nodiadau datgelu ychwanegol ar dudalen 3 ynghylch gwariant o dan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972, llofnodwyd y dogfen gan y Maer.

Cymeradwywyd hefyd yr adroddiad Cysoniad Banc sydd hefyd wedi'i anfon ymlaen a'r esboniad o'r amrywiadau sylweddol ar y datganiadau cyfrifyddu fel sy'n ofynnol gan Archwilio Cymru - mae angen eglurhad ar linellau 3 a 6 eleni gan fod yr amrwyd % dros y trothwy 15%. Roedd y Cynghorwyr yn cytuno â'r holl atebion a ddarparwyd.

Ni gododd unrhyw faterion na gwnaed unrhyw argymhellion yn dilyn yr archwiliad ar gyfer 2023-24.

Presentation of Accounting statements 2024-25 for Cardigan Town Council and the Community and Town Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2025 and the Internal Audit Report 2024-25.

The Responsible Financial Officer (Eleri Maskell) presented the Internal Audit Report, Bank Reconciliation, Income and Expenditure Report for the year ending 31 March 2025.

Explanations of significant variances on the Accounting Statements were also presented. The above documents had been forwarded by e-mail to members prior to the meeting. The Clerk explained that there was a slight variance of £4.32 in the end of year accounts balance presented in the April meeting, due to the monthly bank charges being withdrawn against the account at the end of March after the reconciliation had been completed. The documents have been adjusted to present the correct figure.

The following presentation was given by the RFO:

It was understood that members have read and examined the Internal Audit report. The Statement of Income and Expenditure figures on page 1 of the Annual Return was prepared prior to the Internal Auditor inspection on 16 April 2025, and he found them to be correct and in order. The Community and Town Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2025 pages 1, 2 and 3 required the attention of councillors at the meeting. Questions 1-10 on page 2 and additional disclosure notes on page 3 regarding expenditure under S137 Local Government Act 1972 were completed, approved and signed by the Mayor. The Bank Reconciliation report which has also been forwarded and the explanation of the significant variances on the accounting statements as required by Audit Wales were also approved – line 3 and 6 require an explanation this year as the % variance is over the 15% threshold. Councillors agreed with all the answers provided.

There were no matters arising or recommendations made following the audit for 2023-24.

c) Datganiad cymhwysedd blynyddol “Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Cymru)” – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r meini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni'n llawn - mae gan y Clerc y cymhwyster CiLCA priodol, mae mwy na dwy ran o dair o gyfanswm y cynghorwyr wedi'u datgan yn etholedig ac mae cyfrifon heb gymhwysedd wedi'u derbyn yn ystod y deuddeg mis blaenorol.

“General Power of Competence (Wales)” Annual eligibility declaration – Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

It was resolved to adopt the General Power of Competence set out in Local Government and Elections (Wales) Act 2021. The eligibility criteria is fully met - the Clerk holds the appropriate CiLCA qualification, more than two thirds of the total number of councillors have been declared elected and unqualified accounts have been received during the previous twelve months.

d) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
41	<i>Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol: Trosglwyddo swyddogaethau I Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru / Independent Remuneration Panel for Wales: Transfer of functions to Democracy and Boundary Commission Cymru.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/03/2025.
42	<i>CSC: Bwletin Costau Byw Mawrth 2025. CCC: Cost of Living Bulletin March 2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 31/03/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/03/2025.
43	<i>Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mawrth i Mehefin / Remote training sessions that are taking place in March to June.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 1/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/04/2025.
44	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Feidrfair/Pendre 30/04/2025-02/05/2025 08:00-18:00 Dwr Cymru/ Welsh Water.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 1/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/04/2025.
45	<i>Jane Roche: Cyfarfod Grŵp Cymunedol Teifi yn Fisherman's Rest 4.30pm-6.00pm dydd Mercher 9 Ebrill 2025 / Teifi Community Group Meeting at Fisherman's Rest 4.30pm-6.00pm Wednesday 9 April 2025.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 1/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/04/2025.
46	<i>Wynne Jones – Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 4/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 4/04/2025.
47	<i>Y Cyng/Cllr Richard Jones – Lês Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan Rugby Club Lease.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr fynychu cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer y Brenin Siôr V i gynig bod y Clwb Rygbi yn dod yn gyfleuster ar gyfer mwy nag un chwaraeon. Bydd y brydles yn cael ei hatal nes bod y trafodaethau'n digwydd / Councillors resolved to attend the Advisory Committee meeting for King George V to propose the Rugby Club become a facility for more than one sport. The lease will be withheld until the discussions take place.</i>
48	<i>Seamus O'Sullivan – Diffyg llwybr a achosir gan wreiddyn coeden yn arwain at anaf personol sylweddol / Path defect caused by a tree root resulting in significant personal injury.</i>	<i>Nodwyd, mae'r e-bost wedi'i anfon ymlaen at CSC / Noted, the email has been forwarded to CCC.</i>
49	<i>Wynne Jones – Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 7/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 7/04/2025.
50	<i>Tim Cymorth Argyfwng Cost Byw Un Llais Cymru / One Voice Wales Cost of Living Crisis Support Team: Digwyddiadau Ar-lein sydd i Ddod / Upcoming Online Events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 7/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 7/04/2025.
51	<i>Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2025 / Motions for 2025 Annual General Meeting.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 7/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 7/04/2025.
52	<i>Wynne Jones – Presylwydd / Resident: Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbty yn</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/04/2025.</i>

	<i>Aberteifi</i> / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.	For your information. Forwarded to all councillors on 11/04/2025.
53	<i>Gardd Goedwig Gymunedol</i> Naturewise Community Forest Garden: <i>Cylchlythyr Ebril</i> / April Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 14/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/04/2025.
54	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/04/2025.
55	Tanya Collins – <i>Ysgrifenyddes Clwb Rygbi Aberteifi</i> / Secretary Cardigan Rugby Club: Cais am gefnogaeth o Osod Panel Solar / Support request for Solar Panel Installation.	<i>Penderfynwyd atal caniatâd nes bod y sefyllfa brydles wedi'i thrafod</i> / It was resolved to withhold permission until the lease situation is discussed.
56	<i>Bwletin Mis Ebrill Cynnal y Cardi</i> / Cynnal y Cardi April Bulletin.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/04/2025.
57	Steve Rice – Cardigan Pool Revival: <i>Diweddariad</i> / Update.	<i>Y Clerc i ofyn am ddiweddariad yn dilyn y cyfarfod gyda Swyddogion a Chynghorwyr y Cyngor Sir</i> / Clerk to ask for an update following the meeting with Cuncy Council Officers and Councillors.
58	Rachel Carter, <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales – Pethau Bychain: <i>Recordiad gweminar Morloi – Panda Mawr Cymru</i> / Webinar Seals Recording - Wales' Giant Panda.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/04/2025.
59	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Angen Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio</i> / Independent Audit Committee Member Sought.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/04/2025.
60	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/04/2025.
61	<i>Cyng/Cllr Siân Maehrlein – Sylwadau gan breswlydd ynghylch Stryd Fawr Aberteifi</i> / Comments from resident regarding Cardigan High Street.	<i>Nododd y cynghorwyr y sylwadau a wnaed gan y preswlydd ond nid oes unrhyw atebion i broblemau traffig o'r fath</i> / Councillors noted the comments made by the resident but there are no solutions to such traffic issues.
62	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbyty yn Aberteifi</i> / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/04/2025.
63	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill, Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 22/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/04/2025.
64	Alun Harries – <i>Swyddog Rhanbarthol Gorllewin a Chanolbarth Cymru, Un Llais Cymru</i> / Mid & West Wales Development Officer, One Voice Wales: <i>Cofnodion Drafft Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion</i> / Draft Minutes Ceredigion Area Committee Meeting.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/04/2025.
65	<i>Tîm Cymorth Argyfwng Cost Byw Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales Cost of Living Crisis Support Team: <i>Gwybodaeth ac Adnoddau</i> / Information and Resources.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 24/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/04/2025.
66	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240851 – Tir yn Dol y Dintir, Heol Newmill,</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 28/04/2025.</i>

	<i>Aberteifi SA43 1NE</i> / Observation on planning application A240851 – Land at Dol y Dintir, Newmill Road, Cardigan SA43 1NE.	For your information. Forwarded to all councillors on 28/04/2025.
67	<i>Cyllid a Chaffael CSC</i> / Finance and Procurement, CCC: <i>Manylion taliad praesept 1</i> / Remittance Advice Precept 1.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/04/2025.
68	Emily Edwards - <i>Rheolwr Partneriaeth Gymunedol, Cymuned Aberteifi, CSC</i> / Community Partnership Manager, Cardigan Community, CCC: Cais i atgyweirio ffens ym Maes Chwarae Pentop / Request to repair fencing at Pentop Play Area.	<i>Penderfynwyd cyfarwyddo Bachandech y cyngor i gwblhau'r gwaith atgyweirio angenrheidiol ar y ffens /</i> It was resolved to instruct the council handyman to complete the necessary repair work on the fence.
69	<i>Y Parch/Rev Wyn Maskell, Eglwys Santes Fair: Diolch am y rhodd hael I gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw fynwent yr Eglwys</i> / Thank you for the generous donation towards the upkeep of the Church graveyard.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/04/2025.
70	Wynne Jones – <i>Presylwydd</i> / Resident: <i>Sylw ar gais cynllunio A240176 - Ailddatblygu safle hen ysbyty yn Aberteifi</i> / Observation on planning application A240176 – Redevelopment of former hospital site at Cardigan.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 29/04/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 29/04/2025.
71	Nico Dafydd – <i>Fflach Cymunedol Aberteifi: Cais am lythyr cefnogaeth ar gyfer cais am grant</i> / Request for letter of support for a grant application.	<i>Mae'r Clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth ymlaen /</i> The Clerk has forwarded a letter of support.
72	Ann Barlow, Carfters Cwtch – <i>Dathliadau Diwrnod VE</i> / VE Day celebrations.	<i>Y cler i hysbysu Ms Barlow ynglŷn â'r gwasanaeth wrth y senotaff a'r digwyddiad a drefnwyd gan y Cyngorydd Harries ym Maesglas /</i> Clerk to inform Ms Barlow regarding the service at the cenotaph and the event organised by Cllr Harries in Maesglas.
73	Callum Jones – <i>Swyddog Cymunedol Cefnogol</i> / Supportive Communities Officer, CAVO: <i>Grant Cysylltu a Hysbysu</i> / Connect and Inform Grant.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/05/2025.
74	Lisa Francis – <i>Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais</i> / Protect Bronglais Services: <i>Gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus nos Wener 20 Mehefin</i> / Invitation to a public meeting Friday 20 June.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 1/05/2025.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 1/05/2025.
75	<i>Gwasanaethau Eiddo, CSC</i> / Property Services, CCC: <i>Toiledau Cyhoeddus</i> / Public Conveniences.	<i>Gweler pwynt 14. j) ar yr Agenda /</i> See point 9. d) on the Agenda.
76	Theatr Mwldan: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Gorffennaf.</i> To be discussed at the July Grants Sub-committee.
77	Cadwgan Building Preservation Trust: <i>Cais am gymorth ariannol</i> / Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Gorffennaf.</i> To be discussed at the July Grants Sub-committee.

e) Adroddiad flynyddol y Cyngor.

Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrro ymlaen llaw i'r cyngorwyr.
Cytunodd y Cyngorywr i gymeradwyo'r adroddiad flynyddol uchod.
 Councils' Annual Report.

The report has been forwarded beforehand to all councillors.
 The councillors agreed to approve the above annual report.

f) Gardd Gymunedol Rhos y Dre.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariadau, mae rhanddeiliaid yn aros am ganiatâd gan CCC i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn.
 Rhos y Dre Community Garden.
 No updates have been received, stakeholders are waiting for permission from CCC to proceed with this project.

g) Cae Chwarae Maesglas.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu eto at Geraint Roberts, Barcud i ofyn am brydlesu'r tir i'r Cyngor Tref.

Maesglas Playing Field.

It was resolved that the Clerk write again to Geraint Roberts, Barcud to request the land be leased to the Town Council.

h) Cyfarfod Grŵp Bioamrywiaeth.

Bydd hyn yn cael ei roi ar yr Agenda ym mis Mehefin.

Bio Diversity Group Meeting.

This will be placed on the June Agenda.

i) Dyddiad ar gyfer cynnau golau Nadolig.

Dyddiadau i'w nodi Ffair Nadolig Castell Aberteifi – dydd Sadwrn 29 Tachwedd; Parêd Llusernau Theatr Byd Bach – nos Wener 5 Rhagfyr.

Penderfynwyd trefnu'r digwyddiad ar gyfer dydd Sadwrn 29 Tachwedd.

Date for Christmas light switch on.

Dates to note Cardigan Castle Christmas Fair – Saturday 29 November; Small World Theatre Lantern Parade – Friday 5 December.

It was resolved to arrange the event for Saturday 29 November.

j) Cytundebau Lefel Gwasiaeth CSC ar gyfer toiledau Aberteifi.

Penderfynwyd cytuno i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ar gyfer toiledau cyhoeddus y Tŷ Baddon, Mwldan Isaf a Gerddi Victoria am y symiau arfaethedig heb unrhyw newidiadau. Bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn sefyll nes bod y cytundebau prydles yn cael eu derbyn gan y cyngor sir, ac unwaith y byddant wedi'u cytuno a'u llofnodi, bydd y toiledau cyhoeddus yn dod o dan reolaeth y cyngor tref.

CCC Service Level Agreements for Cardigan toilets.

It was resolved to agree to the Service Level Agreement received from CCC for the Bath House, Lower Mwldan and Victoria Gardens public toilets at the proposed amounts with no amendments made. The SLA will stand until the lease agreements are received from the county council, once agreed and signed, the public toilets will fall under the control of the town council.

k) Gwyl Crefft Aberteifi.

Mae Sarah James yn gofyn am ganiatâd i godi baneri polyn lamp Gŵyl y Crefftau rhwng 4 Awst a 7 Medi; i hysbysebu ar ffens y Brenin Siôr V, i daflu delwedd ar y castell gan ddefnyddio ein Gobo, i ddefnyddio 8 radio, conau traffig ac i osod siwmpwr ar y Dyfrgi. Cytunodd y Cyngorwyr yn unfrydol i'r holl geisiadau uchod.

Cardigan Craft Festival.

Sarah James is requesting permission to erect The Craft Festival lamp post banners between 4 August – 7 September; to advertise on the King George V fence, to project an image on the castle using our Gobo, for the use of 8 radios, traffic cones and to place a jumper on the Otter.

The Councillors agreed unanimously to all of the above requests.

l) Cyrtiau Tennis Aberteifi.

Penderfynwyd cloi'r cyrtiau tenis i osgoi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol cynyddol a welir, nes bod y system dalu a'r contract rheoli gyda Lawn Tennis Cymru wedi'u cwblhau.

Cardigan Tennis Courts.

It was resolved to lock the tennis courts to avoid the growing anti-social behaviour being witnessed, until the paying system and management contract with Lawn Tennis Wales is finalised.

15. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

2 Ebrill	Cyfarfod rhanbarthol Un Llais Cymru yng Nghei Newydd.
7 Ebrill	Cyfarfod Pwyllgor Gefeillio Brioude.
9 Ebrill	Cyfarfod Grŵp Cymunedol Teifi yn Fisherman's Rest.
10 Ebrill	Hyfforddiant Sicrhau Grantiau Loteri a gynhelir gan Un Llais Cymru.
14 Ebrill	Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Eisteddfod y Garreg Las.
19 Ebrill	Sioe Meirch, Llanbedr Pont Steffan.
20 Ebrill	Gymanfa Ganu, Capel Blaenannerch.
21 Ebrill	Beirniad Cystadleuaeth Lliwio Pasg, Maesglas, Aberteifi.
22 Ebrill	Cyflwyniad sganiwr newydd, a roddwyd gan Gyfeillion Aberteifi a Gofal Iechyd Cymunedol yn y Ganolfan Gofal Integredig.
23 Ebrill	Cynorthwywyd i godi baneri canol y dref.
23 Ebrill	Cyfarfod Cyfeillion Aberteifi a Gofal Iechyd Cymunedol.
25 Ebrill	Cyflwyno wyau siocled i enillwyr y gystadleuaeth liwio, Maesglas, Aberteifi.
26 Ebrill	Dydd Sadwrn Barlys – mynychu'r beirniadu, cerdded gyda'r prif weinidog Eluned Morgan i lawr i Neuadd y Dref, lle gwnaethom wyllo'r orymdaith, yna mynychu lletygarwch ar ôl y digwyddiad.
27 Ebrill	Chwynnu a glanhau cei'r Tywysog Siarl i gefnogi busnesau lleol. Rhaid diolch i Joan Pocok a Pam Harris, trigolion lleol, a'r Cyng Elaine Evans a'i gŵr Clive Evans, am wirfoddoli eu hamser a gweithio'n galed ar y dasg dan sylw.
28 Ebrill	Rhannu enghreifftiau llwyddianus, sicrhau Grantiau Loteri, cyngorau lleol eraill, a gynhelir gan Un Llais Cymru.
29 Ebrill	Cyfarfod Is-bwyllgor Personél.
3 Mai	Taith gerdded codi arian Criw Glo ar gyfer Gofal Canser Aberteifi.
4 Mai	Casglu sbwriel cymunedol.
4 Mai	Digwyddiad Rasio Tractor CFFI Penparc.
5 Mai	Gwirfoddoli ar gyfer Elusen Tir Dewi.
5 Mai	Ffair Fwyd, Y Sied yn Mwnt.

Mayor's Diary

2 April	One Voice Wales regional meeting at New Quay.
7 April	Brioude Twinning Committee Meeting.
9 April	Teifi Community Group Meeting at Fisherman's Rest.
10 April	Securing Lottery Grants training hosted by One Voice Wales.
14 April	Eisteddfod y Garreg Las Working Group Meeting.
19 April	Lampeter Stallion Show.
20 April	Gymanfa Ganu, Blaenannerch Church.
21 April	Easter Colouring Competition Judge, Maesglas, Cardigan.
22 April	New scanner presentation, donated by Friends of Cardigan and Community Health Care at the Integrated Care Centre.
23 April	Assisted to erect town centre bunting.
23 April	Friends of Cardigan and Community Health Care Meeting.

25 April	Presentation of chocolate eggs to colouring competition winners, Maesglas, Cardigan.
26 April	Barley Saturday – attending judging, accompanied the first minister Eluned Morgan from school field to the Guildhall, where we watched the parade, then attended post event hospitality.
27 April	Weeded and cleaned Prince Charles quay in support of local businesses. Appreciation must be given to Joan and Pam local residents and Cllr Elaine Evans and her husband Clive for volunteering their time and working hard at the task in hand.
28 April	Sharing success stories in securing Lottery Grants, other local councils, hosted by One Voice Wales.
29 April	Personnel Sub-committee meeting.
3 May	Criw Glo fund raising walk for Cardigan Cancer Care.
4 May	Community litter pick.
4 May	Penparc YFC Tractor Racing event.
5 May	Volunteered for Tir Dewi Charity.
5 May	Food Fair, The Shed at Mwnt.

b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mae'r mis hwn wedi bod yn gymharol dawel o ran cyfarfodydd yn y Cyngor Sir. Cafodd Adnoddau Corfforaethol un cyfarfod i adolygu Polisiâu AD, a chafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Cabinet heddiw.
- Roedd rhywfaint o dipio anghyfreithlon ger y banc poteli, Maes Parcio Stryd y Cei, ddylai fod wedi'i symud erbyn hyn. Trefnwyd hefyd i'r biniau stryd heb eu gwagio gael eu casglu.
- Gwnaed cais i osod gorsaf lyfrau yn ardal chwarae Pentop. I ddathlu 90 mlynedd o lyfrau Penguin, maen nhw'n rhoi Penguin Little Book Stops ledled y wlad. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi os byddwn yn llwyddiannus.
- Glanhaodd grŵp ohonom Gei'r Tywysog Siarl ddydd Sul 27 Ebrill yn barod ar gyfer rhywfaint o waith ffilmio sy'n cael ei wneud i lawr yno'r wythnos hon. Chwynnodd y Cyng Olwen Davies, Joan Pocock, Pam Harris, Clive Evans a finnau drwyddo draw ond diolch yn arbennig i Pam a Joan sydd allan yn rheolaidd yn casglu sbwriel ac yn chwynnu i gadw ein tref yn dachus. Mae CSC yn trefnu i'r arysgrifau ar wal y cei gael eu hail-baentio ac i atgyweirio'r llechi sydd wedi'u difrodi.
- Mae'r seddi llechi sydd wedi'u difrodi yng Ngilfach Penbont wedi cael eu hadrodd, ond nid wyf wedi derbyn unrhyw ddiweddariad eto ynglŷn â'r gwaith hwn i'w wneud.
- Cwblhawyd amryw o gyrsiau hyfforddi gorfodol yr oedd angen eu hadnewyddu.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- This month has been relatively quiet regarding meetings at the County Council. Corporate Resources had one meeting to review HR Policies, these were approved by Cabinet today.
- There was some fly tipping at the bottle bank, Quay Street Carpark, which should by now have been removed. Also arranged for the unemptied street bins to be collected.
- An application has been made for a book station to be placed in the Pentop play area. To celebrate 90 years of Penguin books, they are donating Penguin Little Book Stops all over the country. I will update you if we are successful.

- A group of us cleaned Prince Charles Quay on Sunday 27 April in readiness for some filming work that is being done down there this week. Cllr Olwen Davies, Joan Pocock, Pam Harris, Clive Evans and myself weeded throughout, but special thanks to Pam and Joan who are regularly out litter picking and weeding to keep our town tidy. CCC are arranging for the inscriptions on the quay wall to be repainted and to repair the damaged slates.
- The damaged slate seating at Gilfach Penbont has been reported, but I am yet to receive any update for this work to be done.
- Completed various mandatory training courses that needed renewing.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn yn fy adroddiad i ddiolch i'r Cyng Teresa Harries am drefnu digwyddiad cymunedol i ddathlu 80 mlynedd ers diwrnod VE ar faes chwarae Maesglas ddydd lau nesaf.
- Rwyf wedi mynychu sawl Cyfarfod Safle Cynllunio dros y mis diwethaf.
- Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â Richards Bros i drefnu i lwybr bws newydd gael ei sefydlu ar gyfer yr ystâd dai newydd ar tir ger Heol New Mill.
- Rwy'n falch bod dyddiad agor Home Bargains yn agosáu, gan ddod â swyddi mawr eu hangen i'r ardal a lleoliad siopa gwych i drigolion.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- I'd like to take this opportunity in my report to thank Cllr Teresa Harries for organising a community event to celebrate the 80-year Anniversary of VE day on the Maesglas play area next Thursday.
- I've attended several Planning Site Meetings over the last month.
- I've been in contact with Richards Bros to arrange for a new bus route to be established for the new housing estate planned for the land at New Mill Road.
- I am pleased that Home Bargains opening date is getting closer, bringing much needed jobs to the area and a great shopping venue for residents.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.

- i) **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- ii) **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- iii) **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim yw adrodd / Nothing to report.
- iv) **Cyffredinol / General**
Mae'r blodau'n barod a bydd y plannu yng nghanol y dref wedi'i gwblhau erbyn hanner tymor y Sulgwyn. Codwyd y fflagiau blynyddol mewn pryd ar gyfer Sadwrn Barlys, a bydd baneri Cymru yn cael eu gwneud nesaf cyn yr haf. Yn anffodus, oherwydd afiechyd dydw i ddim wedi bod allan yn torri'r porfa yn ddiweddar, felly bydd hyn yn flaenoriaeth unwaith y byddaf wedi adennill fy iechyd yn llwyr.
The flowers are ready and the planting in the centre of town will be completed by the Whitsun half term. The annual bunting was erected in time for Barley Saturday, and the Welsh flags will be done before next before the summer. Unfortunately, due to ill health I haven't been out mowing recently, therefore this will be a priority once I have fully regained my health.

12. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Cyfarfod Grŵp Bio-Amrywiaeth

Cyfradd fesul awr gan is-gontractwyr garddio

Items for the next Agenda.

Bio Diversity Group Meeting

Hourly rate from gardening sub-contractors

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 20.00yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 20.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date

16. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Items for the next Agenda.

Mae'r rhestr uchod yn ddarostyngedig i unrhyw wybodaeth ychwanegol y gellir ei derbyn ar ôl cyhoeddi'r Agenda hon.

The above list is subject to any additional information which may be received following issue of this Agenda.